Cofnodion Cyfarfod 12 Chwefror 2013 a gynhaliwyd yn Neuadd Goffa, Y Felinheli am 7:00 yh.

YN BRESENNOL

Ken Brown
George Smith
Lena Ashley
Nerys John
Louise Hughes
Pat Jones
Bethan Jones
Sarah Riley
Hywel V Jones

Hefyd yn bresennol Wynne Barton
Swyddog Ariannol

1.0 SYLWADAU AGORIADOL AC ADRODDIAD Y CADEIRYDD

1.1 Croesawyd yr aelodau i gyfarfod mis Chwefror y Cyngor. Cyflwynodd y Cadeirydd eiriau o longyfarchiadau i'r Swyddog Ariannol ar enedigaeth wyres fach. Eglurodd y Cadeirydd oherwydd salwch nid oedd wedi medru bod yn bresennol mewn nifer o gyfarfodydd yn y mis diewthaf, er hynny roedd yn ymwybodol bod y cyfarfodydd wedi mynd yn eu blaen yn ei absenoldeb. Gofynnodd i'r Cynghorydd Nerys John i roi adroddiad o'r hyn ystyriwyd yng nghyfarfod Ger y Nant a Ffordd Osgoi Bontnewydd a Chaernarfon.

1.2 Roedd cyfarfod safle wedi bod ar Safle Ger y Nant gyda Gareth Roberts o Gyngor Gwynedd. Dywedodd bod y safle bws yn mynd yn ei flaen a nad oedd dim byddai'r cyngor yn gallu ei wneud ar gyfer tawelu y traffig oedd yn teithio ar hyd Allt Tafarn Grisiau, roedd hefyd wedi addo cadw mewn cysylltiad a cynnal cyfarfod pellach gyda contractor y gwaith, Swyddogion Cyngor Gwynedd a'r Cyngor Cymuned.

1.3 Roedd Carl Sargeant wedi gwrthod ymweld a safle'r ffordd osgoi oherwydd ei fod wedi ymweld a'r ardal ddwy waith yn flaenorol. Roedd y penderfyniad wedi ei wneud ar ol gwaith ymchwil trylwyr. Y cam nesaf gan y Cynghorydd Sion jones yw cyfathrebu a Pwyllgor Craffu'r Cynulliad. Hefyd mae angen codi ymwybyddiaeth Y Felinheli o sut mae'r ffordd osgoi yn mynd i efeithio y pentref. Mae angen agwneud hyn ar gyfer yr ymchwiliad cyhoeddus. Mae datblygu safle Ferodo angen ei ystyried a sut mae'r hen ffordd yn mynd i gael ei effithio. Efallai bod modd cael tudalen ar gwefan Y Felinheli er mwynr hoi'r holl wybodaeth ar y Ffordd osgoi.

1.4 Dywedodd Y Cadeirydd ei fod wedi cael cyfarfod gyda Arolygwr y Ffordd Gwynfor Roberts ynglyn a'r wal gynnal ger y Cae Peldroed. Roedd y gwaith hwn angen blaenoriath a byddai rhai i goeden chael ei thori lawr. Roedd y wal gyferbyn a'r Half way gyda bwa ynddi a rhai cerrig wedi dod yn rhydd. Mae'r gwaith yma yn gontract fawr ac o beryg i'r cyhoedd. Bydd y tyfiant yn cael ei dorri gan y gang cymunedol.

1.5 Roedd ymweliad safle wedi bod ger safle bws Cerrig yr Afon – cyflwynodd y Clerc wybodaeth i'r aelodau bod modd rhoi golau solar ar y safle a byddai yn dod

ymlaen pan fyddai pobl yn defnyddio y safle. Roedd Perchnogion Cerrig yr Afon yn barod i wneud cyfraniad. Dywedodd y Cadeirydd y bydd yn cyfarfod a'r Matron yn fuan.

Ymddiheuriadau Daniel Williams, Siân Gwenllïan.

2.0 DATGAN DIDDORDEB

2.1 Louise Hughes i eitem a lena Ashley i eitem.

3.0 COFNODION

3.1 Cyflwynwyd Cofnodion 8fed o Ionawr 2013.

Cynigwyd ac eiliwyd bod y cofnodion yn gywir ac arwyddwyd y cofnodion.

4.0 MATERION YN CODI

4.1 **Materion Diogelwch Tân** – er nad oedd aelodau o'r pwyllgor yn bresennol dywedodd y Cadeirydd bod y larwm tan wedi eu gosod yn y lloeliadau anghywir, er hynny roedd y pensaer am sortio'r mater.

4.2 **Safle Bws Ger y Nant** – Safle bws wedi ei gwblhau – gwybodaeth pellach wedi ei gyflwyno fel rhan o adroddiad y Cadeirydd..

5.0 ADRODDIAD PWYLLGOR RHEOLI'R NEUADD

5.1 Nid oedd neb yn bresennol i roi adroddiad.

6.0 CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL.

6.1 Cadarnhawyd gwariant Mis Ionawr a derbyniwyd yr adroddiad ariannol.

6.2 Ceisiadau am gymorth ariannol. Ystyriwyd y ceisiadau a phenderfynwyd fel a ganlyn.

CYMDEITHAS/ ORGANISATION	*MANTOLEN/ STATEMENT*	*2011 /12*	*2012 /13*	*Penderfyniad*
Y Goriad		200	200	
Gwyl y Felin		750	500	
Clwb Peldroed		500	500	
1st Felinheli Rainbows £50		50	50	
3rd Portdinorwic Guides £100		100	100	
Cymdeithas Hanes £100		100		Dim Cais

Cylch Meithrin £300		200		Dim Cais Gohirio
Cyfeillion Ysgol Y Felinheli		200	200	
Ras Hwylio		150		Dim Cais Gohirio
Clwb y Felin (Henoed)		150	150	
Brownies		100	100	

6.3 Ceisiadau heb eu derbyn, ystyriwyd a phenderfynwyd fel a ganlyn.

CYMDEITHAS/ ORGANISATION	*MANTOLEN/ STATEMENT*	*2011 /12*	*2012 /13*	*Penderfyniad*
Parti Heulyn				
Cymdeithas Heli'r Heulyn				
Bowling Club				
Pwyllgor Rheoli'r Neuadd		6500		
Clwb Peldroed Ieuenctid			350	

7.0 GOHEBIAETH

7.1 Cyngor Cymuned LLanddeiniolen – Cefnogi penderfyniad y Cyngor Cymuned beth bynnag yw ynglyn a'r peilons.

Penderfyniad y Cyngor i gynnal cyfarfod arbennig gyda'r Cynghorydd Sian Gwenllia yn bresennol i drafod y peilons a pherderfynu a'r safbwynt y Cyngor.

7.2 Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc, Cyngor Gwynedd, Caernarfon, Gwynedd - Holiadur.

Penderfyniad – Y Clerc i lenwi'r holiadur.

7.3 Llythyr ymddiswyddiad y Cyngorydd Eluned Owen.

Penderfyniad derbyn a symud ymlaen i hysbysebu'r sedd wag, hefyd i ysgrifennu at Eluned Owen i ddiolch iddi am ei chyfraniad i weithgareddau'r Cyngor.

8.0 ADRODDIAD IS-BWYLLGOR COFEB Y CLOC

8.1 Dim i'w adrodd.

9.0 CEISIADAU CYNLLUNIO

9.1 C13/0043/20/HY Gosod arwyddion Palis ar ran o ffin y saflle – safle Ger y Nant, Tan y Maes, Y Felinheli LL56 4UQ. – Dim gwrthwynebiad.

9.2 C13/00odi estyniad deulawr to gwastad ar ochr yr eiddo presennol 27 y Wern, Y Felinheli LL56 4TX. – Dim gwrthwynebiad.

10.0 ADRODDIAD IS-BWYLLGOR Y FYNWENT

10.1 Adroddwyd bod hoel malu a fandaliaeth yn y fynwent. Hefyd roedd carreg bedd yn rhydd a bod angen cysylltu a'r teulu.

10.2 Tendrau torri gwair. Cafwyd y tendrau canlynol i law. Fe ystyriwyd a phenderfynwyd fel a ganlyn.

Contractwr	*Pris*	*Penderfyniad*
Gerddi Boris	£120 bob toriad	Cynnig y gontract i Gerddi Boris.
C.W. Jackson	£1560.00 (6 toriad)	
P Mc Guinness	£200 bob toriad	
Gwasanaethau G.R. Services	£160 bob toriad	
Gardderchog	£1350.00 (6 toriad)	

11.0 ADRODDIAD IS-BWYLLGOR MAES PARCIO, LON LAS A SAFLE MORIAH

11.1 Nid yw y Clwb garddio yn bodoli mwyach a mae angen cynnal a chadw safle Moriah.

Penderfnwyd bod y Clerc yn cysylltu a Menter Fachwen.

11.2 Mae angen arwydd i goffau safle Capel Elim, yr arwydd i fod yn debyg i'r un sydd ar safle Moriah. Mae angen cael dyddiadau cywir ar gyfer cael gwneud cofeb.

12.0 ADRODDIAD IS-BWYLLGOR LLWYBRAU, CYSGODFANNAU A MEINCIAU

12.1 Rhoddodd y Cynghorydd George Smith adroddiad ar Adroddiad Cyngor Gwynedd ar eu polisiau dyletswyddau a chyfrifoldebau ar gyfer llwybrau cyhoeddus.

12.2 Roedd angen i'r Cyngor Cymuned gwneud penderfyniad ynglyn a pha lwybrau oedd i dderbyn blaenoriaeth.

Penderfynwyd bod y Clerc yn cysylltu a Cyngor Cymuned Llanddeiniolen i drefnu cyfarfod i drafod blaenoriaeth llwybrau sydd yn cysylltu y ddwy gymuneb a hefyd i ystyried rhannu adnoddau.

13.0 CYNGHORYDD SIR

13.1 Nid oedd y Cynghorydd Sir yn bresennol.

14.0 UNRHYW FATER ARALL

Dim

Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 8:30 yn yr hwyr.

Llofnod: ..... Dyddiad:.....

Cofnodion Cyfarfod 19 Chwefror 2013 a gynhaliwyd yn Neuadd Goffa, Y Felinheli am 7:00 yh.

YN BRESENNOL

Ken Brown
Daniel Williams
Lena Ashley
Nerys John
Pat Jones
Sian Gwenllian

1.0 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r Cyfarfod Arbennig i drafod safbwynt y Cyngor ar y Peilons.

2.0 Rhoddodd y Cynghorydd Sian Gwenllian adroddiad byr o'r sefyllfa ar hyn o bryd.

3.0 Canlyniadau yr ymgynghoriad cyntaf i'w cyflwyno yn mis Mehefin.

4.0 Cynnigodd y Cynghorydd Daniel Williams bod y Cyngor yn mabwysiadau polis ii wrthwynebu cyflwyno cablau cyflenwad trydan dros y tir, angen ir cyflenwad fod o dany mor a'r tir. Cafodd y cynnig ei eilio gan y Cynghorydd Nerys John. Roedd y Cyngor yn unfrydol a dangoswyd hynny.

5.0 Nid oedd y Cyngor wedi derbyn papurau ymgynghoriad cyntaf y Grid Cenedlaethol.

Penderfynwyd i'r Clerc ysgrifennu ar y Grid Cenedlaethol i ddatgan bod yr ymgynghoriad wedi bod yn flawed.

6.0 Dywedodd y Cynghorydd Sian Gwellian bod Dr Horrocks yn gynrychiolydd lleol a oedd yn wybyddus iawn a'r mater ac ei fod yn cynorthwyo yr Aelod Seneddol Hywel Williams.

Penderfynwyd bod y Clerc yn ysgrifennu at Hywel Williams a Dr Horrocks i'w croesawu i gyfarfod arbennig o'r Cyngor Cymuned nes at mis Mehefin.

Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 7:30 yn yr hwyr.

Llofnod: ..... Dyddiad:.....